Rhif: WG29693

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Polisi Cynllunio Cymru Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol

Tachwedd 2016

© Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-7507-6

## 1 Cyflwyniad

1.1 Dros y cyfnod rhwng 21 Mawrth ac 13 Mehefin 2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos ar adolygiad arfaethedig i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

1.2 Nod yr adolygiad i Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y polisi cynllunio cenedlaethol yn llwyr ddiwallu anghenion system fodern ac atebol ar gyfer ystyried sut y mae newid sy’n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei reoli drwy'r system gynllunio. Mae hefyd yn sicrhau bod y polisi cynllunio cenedlaethol yn llwyr adlewyrchu’r ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddyd diweddaraf ar yr amgylchedd hanesyddol.

1.3 Gofynnwyd 6 o gwestiynau i gyd. Roedd pump o’r cwestiynau’n canolbwyntio ar yr adrannau a ddiweddarwyd ym Mhennod 6, ac roedd y chweched cwestiwn yn rhoi cyfle i'r ymatebwyr roi unrhyw sylwadau ychwanegol petaent heb eu cofnodi dan yr ymatebion i’r cwestiynau blaenorol.

1.4 Mae’r adroddiad cryno hwn ar yr ymgynghoriad yn nodi’r ymateb i’r ymgynghoriad ar y drafft o Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, ymateb Llywodraeth Cymru i hynny, a’r camau nesaf.

## 2 Cefndir

2.1 Nid yw polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol wedi newid fawr ers cyhoeddi’r fersiwn gyntaf o Bolisi Cynllunio Cymru yn 2002.

2.2 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu newidiadau mawr yn y modd y caiff amgylchedd hanesyddol Cymru ei reoli. Yn gyffredinol, symudwyd y pwyslais i gyfeiriad rheolaeth gadarnhaol o newid i’r amgylchedd hanesyddol yn hytrach nag osgoi niwed. Adlewyrchir hyn yn nogfen Egwyddorion Cadwraeth Cadw a gyhoeddwyd yn 2011, sy’n annog ffocws cryf ar reolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd hanesyddol.

2.3 Mae rhagor o newid i'r modd y mae’r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn cael ei reoli wedi cael ei atgyfnerthu gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Mae’r ddeddfwriaeth hon yn darparu fframwaith eang sy’n rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, yn gwella’r mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli’r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy, ac yn cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i'r penderfyniadau a wneir am yr amgylchedd hanesyddol.

2.4 Felly, ystyrid bod angen gwneud newidiadau i bennod 6 ym mholisi cynllunio Cymru er mwyn adlewyrchu'n llwyr beth yw'r polisi a'r diweddariadau deddfwriaethol i'r system sy'n ymwneud â'r modd y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei reoli. Ystyrid y byddai'r newidiadau hyn yn sicrhau bod y polisi cynllunio cenedlaethol yn diwallu anghenion system fodern ac atebol ar gyfer ystyried sut y mae newid sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei reoli drwy'r system gynllunio.

**3 Y prif gynigion**

3.1 Dyma'r prif newidiadau arfaethedig i'r polisi cynllunio cenedlaethol ar yr amgylchedd hanesyddol yn y fersiwn ymgynghori ddrafft o Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru:

- Atgyfnerthu'r amcanion i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion modern rheolaeth effeithiol o'r amgylchedd hanesyddol drwy'r system gynllunio. Roedd hyn yn cynnwys nodi amcan newydd i ddiogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd, gan gyfeirio at yr angen i ystyried newid yn yr hinsawdd wrth wneud penderfyniadau ac i sicrhau bod pwyslais newydd ar reolaeth gadarnhaol o newid i adeiladau hanesyddol yn hytrach nag osgoi niwed.

  **Roedd adran 6.2 yn rhoi rhagor o fanylion am ein hamcanion atgyfnerthedig.**

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddar am rolau a chyfrifoldebau'r cyrff sydd â swyddogaeth yn yr amgylchedd hanesyddol a'i berthynas â'r system gynllunio. Roedd hyn yn cynnwys diweddaru rôl Gweinidogion Cymru drwy wasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) gan gyfeirio'n benodol at yr egwyddorion cadwraeth a'r angen i ymateb i amgylchedd hanesyddol cyfan, gan gynnwys cymeriad hanesyddol. Roedd hefyd yn diweddaru rôl asiantaethau eraill, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, ac yn arbennig y gofyniad newydd dan y ddeddfwriaeth gynllunio i gynnal ymgynghoriad cyn-gwneud-cais ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad.

  **Roedd adran 6.3 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am rolau a chyfrifoldebau.**

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y modd y dylai cynlluniau datblygu ystyried yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys tystiolaeth gyfoes am y modd y dylid defnyddio'r amgylchedd hanesyddol mewn cynlluniau datblygu lleol. Roedd hyn yn cynnwys cyfeirio at yr angen i gael mynediad at gofnodion yr amgylchedd hanesyddol a'u defnyddio wrth lunio cynlluniau datblygu lleol. Hefyd, sut y dylid ystyried asedau neu ardaloedd treftadaeth sy'n bwysig yn lleol wrth ddatblygu cynlluniau datblygu lleol neu ganllawiau cynllunio atodol.

**Roedd adran 6.4 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y modd y dylai cynlluniau datblygu ystyried yr amgylchedd hanesyddol.**

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag ystyried yr amgylchedd hanesyddol drwy'r broses rheoli datblygiad. Yn arbennig, roedd yn cryfhau'r gofynion i gael cofnod priodol ac archif o olion archaeolegol wrth ystyried cynigion datblygu sy'n effeithio arnynt. Roedd yr adran hefyd yn cyflwyno nod newydd, sef diogelu a gwella adeiladau rhestredig, gan eu cadw i'w defnyddio mewn modd cynaliadwy. Roedd hefyd yn cyfeirio at y gofyniad newydd i ymgynghori â Cadw mewn perthynas â phob cais sy'n debygol o effeithio ar barc neu ardd hanesyddol gofrestredig, a'r trefniadau newydd ar gyfer y gofrestr tirweddau hanesyddol.

**Roedd adran 6.5 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y modd y dylid ystyried yr amgylchedd hanesyddol drwy broses rheoli datblygiad.**

- Darparu polisi cynllunio newydd ar ddatblygiad galluogi, sy'n adlewyrchu'r arferion presennol a'r gydnabyddiaeth a roddir yn nogfen Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer cynigion datblygu sy'n gallu bod o fudd i dreftadaeth. Mae'n cydnabod y gallai cynigion o'r fath fod yn briodol os yw'r manteision i'r cyhoedd o ganlyniad i ddiogelu neu wella ased hanesyddol pwysig yn gwrthbwyso'r niwed i ddiddordebau materol eraill.

**Roedd paragraffau 6.5.27 a 6.5.28 yn darparu polisi cynllunio newydd ar ddatblygiad galluogi mewn perthynas â chynigion datblygu sy'n gallu bod o fudd i fanteision i dreftadaeth.**

## 4 Ymgynghori a chyhoeddusrwydd

4.1 Cafodd drafft diwygiedig o Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar 21 Mawrth 2016 ar gyfer cyfnod o 12 wythnos o ymgynghoriad cyhoeddus.

4.2 Roedd manylion yr ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw rhestr o randdeiliaid hirsefydlog yn y system gynllunio a chafodd y rhain i gyd wybod am yr ymgynghoriad drwy neges e-bost uniongyrchol ar 21 Mawrth 2016. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Cynllunio yn y 25 o awdurdodau cynllunio lleol, y 23 o ymgynghoreion statudol a'r 101 o ymgynghoreion anstatudol.


4.3 Hefyd, bu swyddogion cynllunio'n gweithio gyda Cadw i gael rhestr o randdeiliaid allweddol yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys cyrff ac unigolion sydd â diddordeb penodol mewn materion treftadaeth (er

enghraifft ymddiriedolaethau archaeolegol) a chawsant hwythau wybod am yr ymgynghoriad ar 21 Mawrth. Ar wahân i hynny, cysylltodd Cadw â rhanddeiliaid a oedd wedi cofrestru diddordeb mewn cael gohebiaeth am Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i roi gwybod i'r unigolion/cyrff hynny am yr ymgynghoriad drwy neges e-bost uniongyrchol ar 21 Mawrth 2016.

## 5 Yr ymatebion

5.1 Cafwyd cyfanswm o 75 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Y math mwyaf o ymatebwyr oedd 'arall', a oedd yn cynnwys unigolion ac ambell sefydliad, sef 24% o'r holl ymatebion a ddaeth i law. Awdurdodau cynllunio lleol oedd 21% o'r holl ymatebwyr, gydag 16 o'r 25 o awdurdodau'n darparu sylwadau sylweddol. Y sector gwirfoddol oedd 19% o'r holl ymatebwyr, gan gynnwys ymddiriedolaethau archaeolegol a Grŵp Treftadaeth Cymru. Asiantaeth llywodraeth / sector cyhoeddus arall oedd 17% o'r holl ymatebwyr, pryd y cafwyd sylwadau gan randdeiliaid yn cynnwys cynghorau cymuned, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Cafwyd nifer fymryn yn llai o ymatebion gan gyrff proffesiynol / grwpiau diddordeb, sef 16% o'r cyfanswm, pryd y cafwyd sylwadau gan randdeiliaid yn cynnwys RTPI Cymru, Cymdeithas y Cyfreithwyr a Sefydliad Siartredig Archaeolegwyr. Dim ond 2 ymateb (3%) a ddaeth gan randdeiliaid a oedd yn eu categoreiddio eu hunain fel busnesau. Ceir dadansoddiad cyflawn o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn yn yr **Atodiad**.

*Ffigwr 1: Ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru yn ôl math.*




Math o Ymatebydd

Busnesau

2 ymatebydd 3%

Awdurdod Cynllunio Lleol

16 ymatebydd

21%

Asiantaeth Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall

13 Ymatebydd

17%

Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb

12 ymatebydd

16%

Sector Gwirfoddol

14 ymatebydd

19%

Arall 18 ymatebydd

24%

**6 Crynodeb o'r ymatebion fesul cwestiwn**

6.1 Isod, ceir dadansoddiad cryno o'r prif ganfyddiadau ar gyfer pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad, ac i ddilyn ceir ymateb Llywodraeth Cymru.

6.2 Dylid nodi nad yw'r dadansoddiad cryno a ddarperir isod yn adlewyrchu holl nifer yr ymatebwyr. Yn hytrach, mae'n seiliedig ar yr ymatebwyr a atebodd 'ie' neu 'na' yn uniongyrchol i'r cwestiynau (fel yr amlinellir yn y tablau isod). Roedd llawer o'r ymatebwyr wedi dewis peidio ag ateb yn uniongyrchol ac wedi rhoi sylwadau. Lle bynnag y bo modd, mae sylwadau a safbwyntiau wedi cael eu hymgorffori yn y dadansoddiad os ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r pwnc dan sylw yn y cwestiwn hyd yn oed os na chawsant eu cyflwyno'n benodol fel atebion i'r cwestiwn. Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau'n gwahodd ymatebwyr i ymhelaethu ar eu safbwyntiau; felly mae llawer o'r dadansoddiad a ganlyn yn ansoddol o ran natur.

**Cwestiwn 1:**

**A ydych yn cytuno â'n hamcanion ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol? Os nad ydych, pa amcanion yr hoffech eu gweld neu sut y byddech yn newid yr amcanion presennol?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 13 | 3 | 0 |
| Busnesau | 2 | 0 | 0 |
| Asiantaeth Llywodraeth / Sector Cyhoeddus arall | 7 | 1 | 1 |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb | 11 | 1 | 0 |
| Sector Gwirfoddol | 11 | 2 | 1 |
| Arall | 10 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm** | **54** | **9** | **2** |
| **%** | **83%** | **14%** | **3%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd y rhan fwyaf a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (83%) yn cefnogi'r amcanion a osodwyd ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Dim ond dau ymatebydd a oedd yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu'r dull mwy hyblyg o reoli'r amgylchedd hanesyddol ond yn cytuno bod angen ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, teimlai rhai ymatebwyr nad oedd yn glir sut i reoli effaith y newid yn yr hinsawdd ar asedau hanesyddol mewn modd cytbwys a chynaliadwy.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gallai'r amcanion fod yn fwy clir gan nad yw'r defnydd o iaith i esbonio amcanion penodol ar gyfer asedau hanesyddol penodol yn gyson ac nid yw bob amser yn adlewyrchu athroniaeth cadwraeth a rheolaeth wrth i'r athroniaeth honno newid.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru fod yn fwy clir o ran y berthynas rhwng rheoli newidiadau i asedau hanesyddol a'r angen i ymdrin â’r newid yn yr hinsawdd. Diwygiwyd y polisi i egluro sut y dylid rheoli’r newid i asedau hanesyddol mewn perthynas â’r risgiau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd.

Mae’r polisi a’r amcanion ar gyfer lefel yr amddiffyniad a roddir i asedau hanesyddol wedi’i ddiffinio mewn deddfwriaeth sydd i’w chael yn bennaf yn Neddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 felly ni chaiff ei newid ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru.

**Cwestiwn 2:**

**A ydych yn cytuno bod rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n rhan o'r broses gynllunio sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn glir ac wedi'u diffinio'n dda? Os nad ydych, sut y byddech yn eu gwneud yn gliriach?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 10 | 5 | 0 |
| Busnesau | 1 | 1 | 0 |
| Asiantaeth Llywodraeth / Sector Cyhoeddus arall | 6 | 3 | 0 |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb | 9 | 0 | 3 |
| Sector Gwirfoddol | 5 | 5 | 4 |
| Arall | 8 | 3 | 0 |
| **Cyfanswm** | **39** | **17** | **7** |
| **%** | **62%** | **27%** | **11%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (62%) yn cytuno bod rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n gysylltiedig â'r broses gynllunio yn glir ac wedi'u diffinio'n dda.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ar rôl Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru. Yn arbennig, i adlewyrchu y gall awdurdod cynllunio lleol gysylltu â nhw i gael cyngor ar lunio cynlluniau datblygu ac i'w cynorthwyo wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.

Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen egluro'r mecanweithiau cyfredol eraill a allai effeithio ar y broses gynllunio a'r amgylchedd hanesyddol. Mae'r rhain yn cynnwys y broses ar gyfer gweinyddu Esemptiad Eglwysig.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylai'r ddogfen ddweud yn fwy clir faith o bwys a roddir ar Egwyddorion Cadwraeth Cadw wrth lunio cynlluniau datblygu a phenderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.

Dywedodd llawer o’r ymatebwyr fod angen i rôl awdurdodau cynllunio lleol gael ei egluro o ystyried bod cyfrifoldeb arnynt i lunio cynlluniau datblygu a phenderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. Dywedodd ymatebwyr eraill y dylid cydnabod yn yr adran hon beth yw rôl cymdeithasau amwynder a chyrff eraill yn y broses gynllunio a threftadaeth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Adolygwyd yr adran ar rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys rolau Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a’r rhai sy’n gysylltiedig ag Esemptiad Eglwysig. Bydd hyn yn sicrhau bod eu rôl yn cael ei adlewyrchu a’i ddeall yn llwyr. Manylir ar yr Esemptiad Eglwysig yn y Nodyn Cyngor Technegol Drafft ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol a gyhoeddwyd i ddiben ymgynghori ym mis Gorffennaf 2016.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru yn glir y dylid defnyddio Egwyddorion Cadwraeth Cadw gan yr awdurdodau cynllunio lleol ac eraill i’w cynorthwyo yn y proses benderfynu pan effeithir ar yr amgylchedd hanesyddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod sylw priodol yn cael ei roi mewn mannau eraill i wybodaeth am fecanweithiau deddfwriaethol a gweithdrefnol eraill a allai effeithio ar gynllunio a’r amgylchedd hanesyddol. Mae gan awdurdod cynllunio lleol fynediad eisoes at wybodaeth o’r fath er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud ar gynigion cynllunio fesul achos, a bod cyrff priodol yn cael eu hystyried wrth benderfynu.

**Cwestiwn 3:**

**A ydych yn cytuno bod y dull gweithredu sydd i'w fabwysiadu ar gyfer llunio cynlluniau datblygu yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn llawn? Os nad ydych, sut y gellid datrys hyn, yn eich barn chi?**

**Trosolwg Ystadegol**

| **Ymatebwyr yn ôl math** | **Cytuno** | **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** | **Anghytuno** |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 6 | 7 | 3 |
| Busnesau | 1 | 1 | 0 |
| Asiantaeth Llywodraeth / Sector Cyhoeddus arall | 5 | 4 | 0 |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb | 9 | 1 | 2 |
| Sector Gwirfoddol | 8 | 3 | 3 |
| Arall | 7 | 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **36** | **19** | **11** |
| **%** | **55%** | **29%** | **17%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd dros hanner y rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (55%) yn cytuno bod y gwaith o lunio cynlluniau datblygu yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn llwyr.

Mynegwyd pryderon a sylwadau gan lawer o ymatebwyr am y modd y dylai ystyriaethau am yr amgylchedd hanesyddol lleol gael ei hadlewyrchu mewn cynlluniau datblygu lleol. Yn ôl rhai ymatebwyr, roedd lefel y manylion a nodwyd yn annigonol, yn enwedig o ran asedau hanesyddol sydd heb eu dynodi ac sy'n bwysig yn lleol. Roedd ambell ymatebydd hefyd o'r farn y dylid ystyried nodweddion ym mhroses y cynlluniau datblygu.

Tynnodd nifer o'r ymatebwyr at brinder arweiniad yn ymwneud yn benodol â defnyddio Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol a sut y gellid ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i gefnogi'r polisïau mewn cynlluniau datblygu lleol.

Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus nad oedd cyfeiriad penodol at rai meysydd o'r amgylchedd hanesyddol yng nghyswllt llunio cynlluniau datblygu, ac felly nid yw’r amgylchedd hanesyddol yn cael ei ystyried yn llwyr yn y broses hon.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio’r polisi i ychwanegu eglurder i’r amgylchiadau pryd y dylai awdurdodau cynllunio lleol gynnwys polisïau ar yr amgylchedd hanesyddol o fewn eu cynlluniau datblygu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r geiriad i sicrhau bod y bennod yn glir ynghylch yr amgylchiadau pryd gellir llunio Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol mewn perthynas â dynodiadau amgylchedd hanesyddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y pryderon a fynegwyd na chyfeirir yn benodol at rai agweddau ar yr amgylchedd hanesyddol yng nghyswllt llunio cynlluniau datblygu. Ystyrir bod y polisi’n glir, gall awdurdodau cynllunio lleol nodi unrhyw elfennau lleol o'r amgylchedd hanesyddol y maent yn ystyried eu bod o bwys digonol i gael eu hystyried yn eu cynlluniau datblygu.

**Cwestiwn 4:**

**A ydych yn cytuno bod y dull gweithredu sydd i'w fabwysiadu yn ystod y broses Rheoli Datblygu wrth benderfynu ar geisiadau sy'n ymwneud â dynodiadau amgylchedd hanesyddol yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn llawn? Os nad ydych, sut y gellid gwella hyn?**

**Trosolwg Ystadegol**

| **Ymatebwyr yn ôl math** | **Cytuno** | **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** | **Anghytuno** |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 7 | 5 | 3 |
| Busnesau | 0 | 0 | 2 |
| Asiantaeth Llywodraeth / Sector Cyhoeddus arall | 4 | 3 | 2 |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb | 6 | 2 | 4 |
| Sector Gwirfoddol | 4 | 3 | 7 |
| Arall | 6 | 3 | 2 |
| **Cyfanswm** | **27** | **16** | **20** |
| **%** | **43%** | **25%** | **32%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd llai na hanner y rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol (43%) yn cytuno bod asedau hanesyddol dynodedig yn cael eu hystyried yn briodol yn y broses rheoli datblygiad.

Teimlai’r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y gallai'r cydbwysedd rhwng diogelu’r amgylchedd hanesyddol a rheoli newid fod yn fwy clir. Gwelir hyn yn arbennig mewn perthynas â diogelu olion archaeolegol, ac mae rhai ymatebwyr yn ystyried nad yw’r polisi mor gryf ag y mae yn y bennod gyfredol o Bolisi Cynllunio Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod angen egluro’r broses ar gyfer ystyried olion archaeolegol yn ystod y broses rheoli datblygiad.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diwygiwyd y cyngor polisi i egluro sut y dylid asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar olion archaeolegol. Hefyd, diwygiwyd y cyngor ar gofnodi olion archaeolegol i sicrhau ei fod yn egluro  pryd a sut y dylid cofnodi.

**Cwestiwn 5:**

**A ydych yn cytuno ei bod yn briodol cynnwys testun ar Ddatblygiad Galluogi fel polisi cynllunio cenedlaethol? Os nad ydych, a yw'n fwy priodol nodi'r mater hwn o fewn canllawiau Cadw ar yr amgylchedd hanesyddol?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 11 | 2 | 2 |
| Busnesau | 1 | 0 | 1 |
| Asiantaeth Llywodraeth / Sector Cyhoeddus arall | 5 | 3 | 0 |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb | 9 | 3 | 0 |
| Sector Gwirfoddol | 9 | 3 | 2 |
| Arall | 5 | 4 | 1 |
| **Cyfanswm** | **40** | **15** | **6** |
| **%** | **66%** | **25%** | **10%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd y rhan fwyaf o’r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (66%) yn cytuno ei bod yn briodol cynnwys adran ar Ddatblygiad Galluogi yn y polisi cynllunio cenedlaethol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o amrywiaeth o sectorau yn cytuno bod Datblygiad Galluogi yn gallu bod y ffordd fuddiol o gadw asedau hanesyddol a bod o fudd i gymunedau yn economaidd ac yn amgylcheddol ar yr un pryd.

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod angen canllawiau manylach ar ddatblygiad galluogi. Mynegwyd rhai pryderon a fyddai’r polisi hwn yn arwain at gynigion amhriodol a fyddai’n niweidio'r amgylchedd hanesyddol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ystyrir bod y polisi’n glir gan ei fod yn nodi sut y dylid caniatáu datblygiad galluogi dim ond pryd y byddai’n sicrhau mantais i dreftadaeth. Mater i bob awdurdod cynllunio lleol yw dehongli’r polisi hwn yn briodol wrth benderfynu ynghylch cynigion datblygiad galluogi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro’r modd y mae awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio’r polisi hwn, a bydd yn ystyried cyhoeddi canllawiau ar arferion da mewn perthynas â datblygiadau galluogi, os oes angen.

**Cwestiwn 6 – Unrhyw sylwadau eraill**

Soniodd nifer o ymatebwyr am faterion eraill, nad ydynt yn ymddangos yn yr adrannau blaenorol. Ceir crynodeb o’r materion hyn isod:

- Dywedodd nifer o'r ymatebwyr eu bod yn bryderus y byddai’r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol a chyrff eraill yn ei gwneud yn anodd i gyflawni’r dyletswyddau a’r amcanion a nodir ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru.
- Fe wnaeth nifer o’r ymatebwyr roi llawer o sylwadau ar yr ystyriaeth y dylid ei rhoi yn y cynllun datblygu a’r prosesau rheoli i ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig, Safleoedd Treftadaeth y Byd ac asedau hanesyddol penodol eraill sydd o ddiddordeb lleol, a byddai croeso i ragor o eglurhad ar y meysydd hyn.
- Gofynnodd nifer o’r ymatebwyr i rôl y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol fod yn fwy clir yn y cynllun datblygu a’r prosesau penderfynu yn ehangach. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd nad yw’r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn rhoi darlun cyflawn o'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru i fod yn sail tystiolaeth i gynlluniau datblygu.
- Dywedodd nifer o’r ymatebwyr fod angen rhagor o eglurder ar y ffordd o ystyried asedau sydd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn ystod y broses rheoli datblygiad.
- Roedd nifer o’r ymatebwyr yn croesawu’r dull o reoli’n gynaliadwy, sy’n seiliedig ar arwyddocâd, ond roeddent yn awgrymu bod angen edrych ar ddull mwy cyfannol o amddiffyn asedau hanesyddol a, lle bo modd, osgoi gwahaniaethu’n llym rhwng gwahanol asedau fel bod modd cydnabod pwysigrwydd asedau hanesyddol lleol a’u hystyried ochr yn ochr ag asedau o bwys cenedlaethol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr anawsterau sy’n wynebu awdurdodau cynllunio lleol a sefydliadau eraill wrth gyflawni eu swyddogaethau cynllunio. Mae grŵp gorchwyl a gorffen wrthi’n edrych ar y cyfleoedd am ragor o gydweithio wrth ddarparu gwasanaethau cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol.

I ymateb i’r sylwadau a roddwyd am yr angen i fod yn fwy clir, cafodd nifer o ddogfennau cyfarwyddyd a Nodyn Cyngor Technegol Drafft ar yr amgylchedd hanesyddol eu cyhoeddi i ddiben ymgynghori ar 11 Gorffennaf 2016 ac maent yn ymdrin â llawer o’r pryderon a fynegwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro’r pecyn hwn o bolisi a chyfarwyddyd ynglŷn â’r modd y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei ystyried drwy'r system gynllunio. Os bydd tystiolaeth yn canfod yn y dyfodol bod angen gwneud newidiadau pellach i'r modd y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei ystyried drwy’r system gynllunio, caiff newidiadau o’r fath eu hystyried maes o law.

Mae'r adran ar y defnydd o Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'n well y modd y caiff ei ddefnyddio fel ffynhonnell allweddol o wybodaeth. Darperir rhagor o fanylion am statws y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol pan fydd yr adran berthnasol o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol 2016 yn cychwyn yn ystod 2017. Law yn llaw â hynny, daw cyfarwyddyd statudol i nodi sut dylid defnyddio'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn y system gynllunio ac yn ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Bennod 6 ddiwygiedig yn cyfrannu at reolaeth gynaliadwy o newid i asedau hanesyddol yn y broses gynllunio drwy nifer o ffyrdd gan gynnwys asesu eu harwyddocâd. Mae hefyd yn cydnabod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac yn ymateb i hynny. Mae'r gwahaniaeth rhwng asedau hanesyddol yn seiliedig yn fras ar ddeddfwriaeth a ddarparwyd yn Neddf Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990 ac roedd diwygiadau i hyn y tu hwnt i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn.

**Atodiad – Rhestr o'r Ymatebwyr fesul Categori**

**Busnesau**

| |
|---|
| Ymatebydd dienw |
| Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys |
| **CYFANSWM = 2** |

**Awdurdodau Cynllunio Lleol**

| |
|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Cyngor Dinas Caerdydd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngor Gwynedd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Cyngor Sir Fynwy |
| Parciau Cenedlaethol Cymru |
| Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot |
| Cyngor Dinas Casnewydd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Cyngor Bro Morgannwg |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| **CYFANSWM = 16** |

**Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall**

| |
|---|
| Cyngor Cymuned Gwaunyterfyn |
| Cyngor Tref Conwy |
| Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| Cyngor Cymuned Llandysilio |
| Cyngor Gwledig Llanelli |
| Cyngor Tref yr Wyddgrug |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cyngor Cymuned Llaneurgain |
| Un Llais Cymru |
| Cyngor Tref Penarth |
| Heddlu De Cymru |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Ysgol Bensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd |
| **CYFANSWM = 13** |

**Cyrff Proffesiynol / grwpiau diddordeb**

| |
|---|
| ALGAO Cymru |
| Ymddiriedolaeth Meysydd Brwydrau |
| Sefydliad Siartredig Archaeolegwyr |
| Cyngor Archaeoleg Brydeinig |
| Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol |
| Sefydliad Tirwedd Cymru |
| RICS Cymru |
| Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru |
| Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru) |
| Ymddiriedolaeth Theatrau |
| Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru |
| **CYFANSWM = 12** |

**Sector Gwirfoddol**

| |
|---|
| Ymatebydd dienw |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| CAMRA, Yr Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn |
| Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed |
| Grŵp Cadwraeth Gwern y Domen |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru |
| Rescue - Ymddiriedolaeth Archaeolegol Prydain |
| Cynghrair Adeiladau Traddodiadol Cynaliadwy |
| Yr Eglwys yng Nghymru |
| Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent |
| Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Grŵp Treftadaeth Cymru |
| Coed Cadw |

| **CYFANSWM = 14** |
|---|

**Arall**

| | |
|---|---|
| Alan Jones, Gwasanaethau Toeon Gwellt a Saernïaeth Sir Benfro | Glandŵr Cymru |
| Ymatebydd dienw | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd |
| Ymatebydd dienw | John Davison |
| Brian Williams | Judith Doyle BA (Anrh.) MCIfA |
| Carl R. Hussey | Kenneth J. Richards, MRTPI |
| CLA Cymru | Cyngor Cymuned Martletwy |
| Dianne Crecraft | Mineral Products Association |
| Dr Hayley Roberts, Prifysgol Bangor | Cyngor Cymuned Mochdre a Phenstrowed |
| Evan Owen | Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru |
| **CYFANSWM = 18** | |

Roedd 4 ymatebydd i gyd wedi nodi eu bod yn dymuno bod yn ddienw felly tynnwyd eu manylion llawn oddi ar y rhestr uchod. Mae copïau o’r sylwadau ar gael ar gais gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru.